Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response



| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Meilyr Rowlands |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 26.03.21 |
| **Pwnc / Subject:** | **Llacio gofynion adrodd ysgolion 2021** |



## Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

## Ymateb

**Cyflwyniad**

Rydym yn cytuno â Llywodraeth Cymru na fydd ysgolion, awdurdodau lleol a chyrff llywodraethol efallai'n gallu cydymffurfio â rhai gofynion statudol yn ystod y cyfnod hwn pan rydym i gyd yn ymateb i bandemig y coronafeirws. Rydym yn cytuno â phob un o'r egwyddorion y mae Llywodraeth Cymru yn cynnig eu rhoi mewn grym wrth ddiwygio rheoliadau a fydd yn addasu neu'n datgymhwyso nifer o ofynion adrodd awdurdodau lleol, llywodraethwyr ysgol ac ysgolion. Trwy lacio'r gofynion a nodir, bydd Llywodraeth Cymru yn lleihau'r baich gweinyddol ar y rhai sy'n gyfrifol.

**Dileu'r gofyniad i gynnwys data ar absenoldeb awdurdodedig ac anawdurdodedig yn ystod blwyddyn ysgol 2020/21 mewn unrhyw brosbectws ysgol**

Mae'r tarfu difrifol ar addysg dros y flwyddyn ddiwethaf wedi golygu ei bod yn annhebygol y gellir dadansoddi absenoldeb disgyblion yn gywir, ac nad oes modd ei gymharu â blynyddoedd blaenorol. Felly, rydym yn cytuno y dylid trefnu darpariaeth i eithrio data ar absenoldebau awdurdodedig ac anawdurdodedig o ran disgyblion sydd wedi eu cofrestru yn yr ysgol yn ystod blwyddyn ysgol 2020/21 rhag cael ei gyhoeddi mewn unrhyw brosbectws ysgol.

**Diwygio Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011**

Rydym yn cytuno bod y ddyletswydd statudol i gyrff llywodraethol lunio adroddiad yn aros, ond byddai'n amhriodol i'r adroddiad hwnnw, a luniwyd ynglŷn â disgyblion sydd wedi eu cofrestru mewn ysgolion yn ystod blwyddyn ysgol 2020/21, gynnwys data ar berfformiad a phresenoldeb, gan na fydd yn debyg i flynyddoedd blaenorol. Hefyd, rydym yn cytuno ei bod yn amhriodol i'w gwneud yn ofynnol i ysgolion adrodd yn unol â thargedau a osodwyd yn y gorffennol ar gyfer y flwyddyn academaidd hon, neu osod targedau ar gyfer y flwyddyn nesaf, ar sail deilliannau a allai fod yn annibynadwy. Mae'r cylch gosod targedau yn digwydd dros gyfnod o dair blynedd, felly mae'r tarfu presennol ar gyfer data ar berfformiad ac absenoldeb, yn ei gwneud yn anodd i ysgolion adolygu, cwblhau ac adrodd yn unol â thargedau mewn blynyddoedd blaenorol, yn ogystal â gosod, adolygu a chwblhau targedau ar gyfer y dyfodol.

**Diwygio Rheoliadau Adroddiad Pennaeth i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2011**

Rydym yn cytuno, er mwyn rhoi sicrwydd am gynnydd i rieni a disgyblion sy'n oedolion, y bydd darparu adroddiadau ynglŷn â'r holl ddysgwyr yn parhau i fod yn ddyletswydd ddiamod. Bydd y sefyllfa barhaus yn gysylltiedig â phandemig y coronafeirws yn ei gwneud yn anodd i benaethiaid drefnu bod adroddiadau ystyrlon a dibynadwy ar gael i'r holl rieni neu ddisgyblion sy'n oedolion am gyflawniadau addysgol disgyblion ar gyfer y flwyddyn academaidd hon, ond rhaid iddynt ddefnyddio gwybodaeth athrawon am eu disgyblion a'r wybodaeth sydd ar gael iddynt, er mwyn gwneud hynny. Rydym yn cytuno mewn egwyddor bod dyletswyddau penaethiaid yn cael eu trin fel pe baent wedi'u cyflawni, os ydynt wedi defnyddio 'ymdrechion rhesymol' i gydymffurfio â nhw, ond bod y term hwn yn amwys, ac mae angen dangos enghreifftiau ohono i osgoi camddealltwriaeth. Yn ychwanegol, rydym yn argymell y dylid rhoi arweiniad i benaethiaid sy'n cynnwys lleiafswm y gofynion.

**Diwygio Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion (Cymru) 2011 ("y Rheoliadau Perfformio")**

Rydym yn cytuno bod cau ysgolion a achoswyd gan bandemig y coronafeirws wedi'i gwneud yn anodd, neu'n amhosibl, i ysgolion gwblhau asesiadau athrawon priodol yn ystod blwyddyn ysgol 2020/21. Rydym yn cytuno y dylid diwygio rheoliadau i ddileu'r dyletswyddau ar gyrff llywodraethol ac awdurdodau lleol i ddarparu data i awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru, yn y drefn honno, ar asesiadau athrawon a deilliannau profion cenedlaethol, ar gyfer y disgyblion sydd wedi eu cofrestru mewn ysgolion yn ystod blwyddyn ysgol 2020/21. Hefyd, rydym yn cytuno â'r cynnig ar gyfer cadw darpariaeth sy'n galluogi Llywodraeth Cymru i dderbyn canlyniadau cymwysterau cymeradwy, at ddibenion eraill nad ydynt yn gysylltiedig â pherfformiad ysgolion nac atebolrwydd.

**Diwygiadau polisi cysylltiedig**

Rydym yn cytuno â chynnig Llywodraeth Cymru i barhau i atal adrodd am ddeilliannau perfformiad ysgolion a chynnwys mesurau perfformiad yn Setiau Data Craidd Cymru Gyfan ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol, Crynodeb o Berfformiad Ysgolion Uwchradd, ac agweddau perthnasol ar wefan Fy Ysgol Leol, ar gyfer blwyddyn ysgol 2020/21. Hefyd, rydym yn cytuno â'r cynnig, ar gyfer blwyddyn ysgol 2020/21 yn unig ar hyn o bryd, i beidio â defnyddio data ar ddyfarniadau cymhwyster i adrodd ar gyrhaeddiad ar lefel ysgol, awdurdod lleol neu gonsortiwm rhanbarthol.